Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Shaun McNally CBE
Prif Weithredwr
Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

**trwy e-bost:**
Shaun.McNally@legalaid.gsi.gov.uk

25/10/2017

Annwyl Mr McNally

**Sylwadau Comisiynydd y Gymraeg ar Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Iaith Gymraeg yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol – 2016/17**

Diolch am yrru'r adroddiad monitro blynyddol ar gynllun iaith Gymraeg yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (Asiantaeth) am y cyfnod uchod.

Sefydlodd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yr egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus ac wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae cynlluniau iaith Gymraeg yn egluro pa wasanaethau fydd yn cael eu darparu yn Gymraeg yn unol â'r egwyddor hon, a'r Comisiynydd sy'n gyfrifol am reoleiddio eu gweithrediad.

Yn dilyn ystyried cynnwys adroddiad yr Asiantaeth, mae'r Comisiynydd wedi penderfynu cynnig y sylwadau canlynol ar rhai o'r materion a nodwyd. Gofynnir hefyd am wybodaeth ychwanegol ar rai o'r materion hynny.

| Adran yr adroddiad | Sylwadau'r Comisiynydd/ Cais am wybodaeth bellach |
|---|---|
| **7 – Ceisiadau cymorth cyfreithiol troseddol** | Fe nodir y nifer o geisiadau Cymraeg ar-lein a wnaethpwyd ar gyfer cymorth cyfreithiol troseddol hyd at ddiwedd Mawrth 2017. Mae nifer fawr o ffurflenni'r Asiantaeth ar gael yn Gymraeg ar wefan gov.uk, ond nid ydynt yn ymweld yn amlwg o gwbl o dudalen Hafan yr Asiantaeth. **Pa gamau mae'r Asiantaeth wedi cymryd er mwyn ceisio sicrhau fod ffurflenni a gwasanaethau Cymraeg ar-lein yn** |

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

| | |
|---|---|
| | **ddigon amlwg i gwsmeriaid sydd am ddefnyddio'r Gymraeg?** |
| **8 – Galwadau ffôn** | Mae'r adroddiad yn cadarnhau bod gostyngiad o 40% wedi bod yn nifer y galwadau ffôn a dderbyniwyd ar y linell Gymraeg o gymharu a 2015-16. Mae hynny'n dilyn gostyngiad pellach yn y flwyddyn flaenorol. Fe nodir fod peth o'r gostyngiad yn dilyn cyflwyno prosesau digidol, a bod cynnydd wedi bod mewn ffyrdd newydd gwahanol y gall cwsmeriaid gael gwybodaeth a chysylltu â'r Asiantaeth.<br>**A yw'r Asiantaeth yn cadw cofnod o faint o gysylltiadau Cymraeg sydd yn cael eu gwneud drwy'r prosesau digidol â'r ffyrdd gwahanol newydd o gysylltu â'r Asiantaeth?** |
| **14 – Cleientiaid** | Cyfeirir at wasanaeth ar-lein ddigidol yr Asiantaeth ar gov.uk, sy'n helpu cleientiaid i benderfynu os yw eu problem yn disgyn o fewn cwmpas cymorth cyfreithiol. Fel gyda'r sylw uchod ynglŷn a ceisiadau cymorth cyfreithiol troseddol, nid yw'n amlwg o dudalen Hafan yr Asiantaeth, nac o dudalen gyntaf y gwasanaeth benodol yma fod gwasanaeth Cymraeg ar gael.<br>**Pa gamau mae'r Asiantaeth wedi cymryd er mwyn ceisio sicrhau fod y gwasanaeth ar-lein 'Gwiriwch os y gallwch chi gael cymorth cyfreithiol' Cymraeg yn ddigon amlwg i gwsmeriaid sydd am ddefnyddio'r Gymraeg?** |
| **16 – Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth Iaith** | Fe nodir fod yr Asiantaeth yn edrych ar gyrsiau addas i'ch dysgwyr iaith uwch, gan gynnwys cyrsiau preswyl.<br>**Mae'r Comisiynydd wedi derbyn gwybodaeth gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ynglŷn â'u cynllun 'Cymraeg Gwaith'. Mae'r wybodaeth wedi ei atodi gyda'r llythyr yma, a hyderwn y bydd y wybodaeth o ddiddordeb i'r Asiantaeth.** |

Gofynnwn i chi ddarparu'r wybodaeth ychwanegol y gofynnir amdani uchod erbyn **24 Tachwedd 2017**.

Yn gywir

**Alun Lloyd Jones**
Ar ran Comisiynydd y Gymraeg

copi: Shelley Cooper